ATISN 13044

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref ATISN 13044

05/04/19

Annwyl ,

ATISN 13044 Cais Rhyddid Gwybodaeth - Y Cwricwlwm

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 12 o Fawrth am y Saesneg yn y cwricwlwm newydd. Mae'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani wedi'i gynnwys isod:

1. Manylion am yr ymrwymiadau cyfreithiol, y cyfeirir atynt ym mharagraff 3.97 y papur gwyn ar y cwricwlwm newydd, sydd ar y Llywodraeth i wneud dysgu Saesneg yn orfodol yn y cwricwlwm

   Nid yw'r Papur Gwyn yn datgan fod y gyfraith bresennol yn golygu fod yn rhaid i'r Saesneg fod yn orfodol yn y cwricwlwm newydd. Beth sydd yn cael ei ddatgan yw fod y Saesneg yn ogystal a'r Gymraeg yn cael eu cynnwys i adlewyrchu ein hymrwymiad cyfreithiol, polisi ac addysgol at ddwyieithrwydd.

   Mae'r Papur Gwyn yn cynnig y bod y Saesneg yn statudol nid yn unig i adlewyrch natur ddwyieithol Cymru ond hefyd i roi neges gryf fod y ddwy iaith yn gyfartal yng Nghymru.

   Mae hyn yn gyson gyda'r agwedd at ddeddfu yng Nghymru fel y gwelir yn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg a wnaed o dan y Mesur hwnnw a Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012.

2. Nifer y lythyrau a/neu e-byst sydd wedi eu derbyn gan y Llywodraeth ers 1af Ionawr 2018 oddi wrth arbenigwyr addysg a/neu rhanddeiliaid yn argymell y dylai dysgu Saesneg fod yn orfodol yn y cwricwlwm newydd

   Ni does unrhyw lythyrau nac ebyst wedi eu derbyn gan arbenigwyr addysg a / neu rhanddeiliaid yn argymell y dylai dysgu Saesneg fod yn orfodol yn y cwricwlwm newydd o 1af Ionawr 2018 hyd 28 Ionawr 2019.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Doc Fictoria, Caernarfon, Gwynedd LL55 1TH

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre
0300 0604400

3. Rhestr o'r cyrff sydd wedi gohebu gyda'r Llywodraeth ers 1af Ionawr 2018yn argymell y dylai dysgu Saesneg fod yn orfodol yn y cwricwlwm newydd.

   Nid oes unrhyw gyrff wedi gohebu gyda'r Llywodraeth yn argymell y dylai dysgu Saesneg fod yn orfodol yn y cwricwlwm newydd o 1af Ionawr 2018 hyd 28 Ionawr 2019.

4. Rhestr o'r arbenigwyr addysg sydd wedi gohebu gyda'r Llywodraeth ers 1af Ionawr 2018 yn argymell y dylai dysgu Saesneg fod yn orfodol yn y cwricwlwm newydd;

   Nid oes unrhyw arbenigwyr addysg wedi gohebu gyda'r Llywodraeth yn argymell y dylai dysgu Saesneg fod yn orfodol yn y cwricwlwm newydd o 1af Ionawr 2018 hyd 28 Ionawr 2019.

Hyderaf fod yr uchod yn ateb eich cwestiynnau.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir